# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 05.03.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Evie Morgan-Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Elin Walker Jones, Dewi Llewelyn, W. Tudor Owen, Peter Read, Ieuan Roberts, Gwilym O. Williams

**Hefyd yn Bresennol:** John Reynolds (Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb), Gwenan M. Williams (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Louise Hughes a John G. Jones

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. **COFNODION**

   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2011 fel rhai cywir.

3. **COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

   Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog:-
   a) 10 Tachwedd 2011
   b) 12 a 23 Ionawr 2012

   **PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

4. **ADDASU POLISI TRWYDDEDU'R CYNGOR**

   Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar addasu polisi trwyddedu'r Cyngor.

   Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd ei bod yn orfodol i awdurdodau trwyddedu gymryd sylw o ganllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003 ac maent yn argymell y lefel dirprwyo mewn perthynas â rhai cyfrifoldebau trwyddedu dan y ddeddf.

   Nododd y swyddog y mabwysiadwyd adolygiad o'r Polisi Trwyddedu yn Rhagfyr 2010 ac mae pennod 12 ohono yn amlinellu i ba lefel pwyllgor a swyddog y dylid dirprwyo cyfrifoldebau trwyddedu perthnasol. Nid yw'r

trefniadau dirprwyo a amlinellir yn y polisi yn cyd-fynd ag argymhellion y canllawiau yn yr ystyr y dylid dirprwyo rhai o'r cyfrifoldebau a gedwir gan y Pwyllgor Trwyddedu Canolog i Is-bwyllgor. Dan Adran 10(1) Deddf Trwyddedu 2003, mae gan y Pwyllgor Trwyddedu'r awdurdod i ddirprwyo unrhyw gyfrifoldebau trwyddedu a weithredir i'r Is-bwyllgor a sefydlwyd gan y pwyllgor.

Argymhellodd bod y trefniadau dirprwyo'n cael eu diwygio er mwyn cyd-fynd ag argymhellion a wneir yn y canllawiau a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Os derbynnir unrhyw gais lle mae sylwadau perthnasol wedi eu derbyn, fe olygai mabwysiadu'r argymhelliad bod Is-bwyllgor a sefydlwyd gan y pwyllgor yn ystyried y cais a byddai swyddogion yn parhau i gymeradwyo ceisiadau lle na dderbynnir sylwadau. 'Roedd o'r farn nad yw'r term "swyddogion" yn ddigon clir ac y dylid dirprwyo'r cyfrifoldeb i geisiadau o'r fath i'r Pennaeth Adran Rheoleiddio yn y lle cyntaf ac y byddai ef wedyn yn awdurdodi aelodau eraill o'i staff i ymdrin â'r ceisiadau fel bo'r angen.

**PENDERFYNWYD**
**a) Dirprwyo'r cyfrifoldebau mewn perthynas â cheisiadau am drwydded, ceisiadau eraill, penderfyniadau a dyfarniadau i'r Is-bwyllgor Trwyddedu a sefydlwyd gan y pwyllgor yn unol â'r canllawiau a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.**
**b) Dirprwyo'r cyfrifoldeb i gymeradwyo ceisiadau lle na dderbynnir sylwadau i'r Pennaeth Adran Rheoleiddio yn y lle cyntaf a'i fod wedyn yn awdurdodi aelodau eraill o'i staff i ymdrin â'r ceisiadau fel bo'r angen.**

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd at y drafodaeth a gafwyd yn y ddau gyfarfod diwethaf parthed diddymu parthau hacni o fewn Gwynedd. Atgoffodd yr aelodau bod y dair ardal yn rhannu'r un amodau oddigerth amod arbennig ychwanegol sy'n berthnasol i Ardal Arfon sef bod y nifer o drwyddedau'n cael eu cyfyngu i 98 ac eithrio trwyddedau ar gyfer cerbydau sy'n llai na tair oed ac sy'n addas i'r anabl drwy ganiatau llwytho cadair olwyn o ochr y cerbyd. Nododd y derbyniwyd nifer o wrthwynebiadau gan y diwydiant i weithredu fel un parth o 1 Ionawr 2012 ac yn y cyfarfod diwethaf penderfynwyd glynu at y drefn bresennol o weithredu'r tri parth hyd nes y byddai gofyn cyfreithiol/deddfwriaethol i wneud newidiadau a cheisio barn gyfreithiol ar y drefn bresennol. Fodd bynnag, derbyniwyd dau gais am drwyddedau gan weithredwyr cerbydau hacni yn Ardal Arfon , sydd heb addasu eu cerbydau ar gyfer mynediad i'r anabl, ac yn unol â'r Polisi Trwyddedu, fe wrthodwyd y ceisiadau hyn ac fe apeliwyd yn erbyn y penderfyniad. Deellir y gwrandewir yr apeliadau gan Lys y Goron ym mis Mehefin 2012 a bydd costau i'r Cyngor ynghlwm â'r apeliadau hyn.

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd ymhellach at fater arall a oedd yn deillio o gamgymeriad gweinyddol lle y trwyddedwyd cerbyd hacni ond yn anffodus nid oedd y trwyddedai wedi etifeddu hawliau taid ond gan bod y drwydded hon yn gyfreithiol nid oedd yn bosibl ei diddymu. Fodd bynnag, erbyn hyn mae cyfnod y drwydded wedi dod i ben ac y dylid

gwrthod cais i'w adnewyddu gan nad yw'n cyd-fynd â'r Polisi Trwyddedu. O ganlyniad i hyn, rhagwelir y cyflwynir apêl.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

Ar derfyn y cyfarfod, cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf o'r pwyllgor cyn etholiad llywodraeth leol ym Mai 2012. Diolchodd i'w gyd-aelodau a'r swyddogion am eu cydweithrediad yn ystod tymor ei gadeiryddiaeth. Dymunodd yn dda i'r Cynghorwyr Evie Morgan Jones a Ieuan Roberts sy'n ymddeol ac hefyd i'r rhai sy'n ceisio cael eu hail-ethol. Dymunodd hefyd ymddeoliad hapus i Amlyn ab Iorwerth y Rheolwr Trwyddedu sy'n ymddeol diwedd y mis hwn a diolchodd iddo am ei gydweithrediad yn ystod y blynyddoedd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m. a daeth i ben am 10.30am